PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 6 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard, Jacobsen, Caerhirfryn, Mackie, Robson, Taylor, Wood a/ac Williams |

21 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Hudson a'r Cynghorydd Murphy.

22 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

23 : COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

24 : GYRWYR TACSI CAERDYDD: CAIS AM GYDNABOD

Cynghorwyd y Pwyllgor y cafwyd cais gan gymdeithas Hurio Preifat a Cherbydau Hacni o'r enw 'Gyrwyr Tacsi Caerdydd' yn gofyn eu bod yn cael eu hadnabod a'u cydnabod gan yr awdurdod trwyddedu fel corff awdurdodedig sy'n cynrychioli gyrwyr cerbydau hurio preifat a cherbydau hacni yng Nghaerdydd. Mae'n sefydliad sydd newydd ei sefydlu ac mae wedi creu copi o'i gyfansoddiad a atodir i'r Adroddiad yn Atodiad A. Gofynnwyd i aelodau ystyried y cais a phenderfynu arno.

Claire Hartrey, Arweinydd Grŵp Trwyddedu, a gyflwynodd yr adroddiad. Cynghorwyd Aelodau nad oedd unrhyw gymdeithasau a oedd yn cael eu cydnabod yn ffurfiol ar y pryd yn y Ddinas ac felly mae'n anodd cael barn gonsensws y fasnach. Mewn ymgais i ymgysylltu â'r fasnach, mae'r awdurdod wedi hyrwyddo sefydlu sefydliadau cynrychioladol, a hynny'n anffurfiol gan mwyaf. Ar hyn o bryd, cyfathrebir gan mwyaf drwy Fforymau Gyrwyr Tacsi chwarterol Caerdydd. Byddai ei gydnabod fel sefydliad masnach sydd wedi'i cyfansoddi'n gywir yn sicrhau ei fod yn gallu gwneud cynigion i'r awdurdod ar newidiadau neu ddiwygiadau i'r polisi; bod ganddo'r hawl i fod yn rhan o ymgynghori ar gynigion i newid neu ddiwygio polisi trwyddedu; a'i fod yn cael manylion adroddiadau Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd ymlaen llaw er mwyn gallu gwneud sylwadau arnyn nhw.

Roedd modd gweld adroddiad drafft ar y cais a gwneud sylwadau arno yn y Swyddfeydd Trwyddedu yn Sloper Road a Neuadd y Ddinas. Anfonwyd adroddiadau hefyd i gynrychiolwyr masnach a cafodd eu cyhoeddi ar dudalennau Trwyddedu'r awdurdod. Cafwyd saith gwrthwynebiad i'r cais. Cafwyd crynodeb o brif bwyntiau'r gwrthwynebiadau hynny yn yr adroddiad. Cafodd manylion llawn y gwrthwynebiadau eu cynnwys yn Atodiad B. Amlinellwyd ymatebion Gyrwyr Tacsi Caerdydd i'r gwrthwynebiadau yn Atodiad C.

Croesawodd y Cadeirydd Mr Paul O'Hara o Yrwyr Tacsi Caerdydd i annerch y Pwyllgor. Dywedodd Mr O'Hara bod y grŵp yn cynnwys gyrwyr tacsis a Dragon Tacsis yn wreiddiol. Serch hynny, er hynny mae wedi esblygu a bellach mae'n cynrychioli Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hacni sy'n gweithio i bob cwmni yn y ddinas. Mae'r gymdeithas yn agored i bob gyrrwr sydd eisiau ymuno. Mae etholiadau wedi'u cynnal i benodi aelodau Grŵp Llywio ac mae'r grŵp wedi mynd ati i wneud sylwadau ar lefel genedlaethol mewn ymgynghoriadau diweddar gan Lywodraeth Cymru ar ei chynigion ar gyfer newidiadau deddfwriaethol yn y fasnach dacsis . Nododd Mr O'Hara fod y gymdeithas eisiau meithrin perthynas waith agos gyda'r awdurdod trwyddedu gan ei bod o'r farn y byddai sefydliad masnach wedi'i drefnu'n iawn o fudd i yrwyr, yr awdurdod trwyddedu a'r ddinas.

Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau i wneud sylw, gofyn am eglurhad neu roi cwestiynau i Mr O'Hara. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Mae gan y gymdeithas tua 150 o aelodau swyddogol a 100 o aelodau cyswllt answyddogol.

- Nododd Aelodau y newidiodd y gymdeithas ei gyfansoddiad er mwyn dileu'r gofyniad bod aelodau'n ymuno ag undeb GMB ac yn lle, 'eir ati i annog' aelodau i ymuno. Awgrymodd Aelodau fod y cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio i ddileu'r cyfeiriad at y GMB ac yn lle, awgrymir bod aelodau'r gymdeithas yn ymuno ag unrhyw undeb fasnach. Nododd Mr O'Hara (PH) fod y gymdeithas yn annog aelodaeth o'r undeb a chroesawodd y sylwadau gan y Pwyllgor.

- Cadarnhaodd PH na fu unrhyw ail-ethol i'r Grŵp Llywio ers i'r gofyniad bod pob aelod yn ymuno â'r GMB yn cael ei ddileu. Mae'r pedwar aelod o'r Grŵp Llywio hefyd yn aelodau o'r GMB. Ystyriodd y Pwyllgor gan fod y GMB yn gysylltiedig â phlaid wleidyddol, a dylid diwygio'r pwyllgor, ond dylai fod set newydd o etholiadau i'r Grŵp Llywio.

- Nododd Aelodau nad yw'r gymdeithas yn codi tâl am aelodaeth a bod yr aelodau'n talu i fynd i gyfarfodyddd gan gynnwys Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol lle mae'r Grŵp Llywio yn cael ei ethol. Gofynnodd Aelodau p'un a oedd hynny'n golygu bod aelodau yn y bôn yn talu am yr hawl i bleidleisio. Atebodd PH fod y gost gofrestru'n mynd ar gadw lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd yn unig. Awgrymodd Aelodau fod y gymdeithas yn ystyried gofyn am roddion neu ei bod yn cyflwyno dulliau codi arian eraill.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar sut ma ymaelodi a sut y caiff cyfarfodydd eu cynnal. Dywedodd PH fod pobl yn ymaelodi drwy e-bost a bod gyrwyr yn rhoi manylion eu bathodyn cerbyd hacni/hurio preifat. Daw pob gohebiaeth drwy e-bost neu'r cyfryngau cymdeithasol yn bennaf. Awgrymodd Aelodau fod y gymdeithas yn ystyried cyflwyno trefniadau mwy ffurfiol ar gyfer ei chyfarfodydd ac nad y cyfryngau cymdeithasol yw'r cyfrwng gorau i alluogi pob aelod i gael cyfle i fynegi barn.

- Roedd PH o'r farn y byddai pob gyrrwr tacsi, yn ddelfrydol yn aelodau o undeb lafur, ond mae undebau llafur yn gweithredu ar lefel genedlaethol a byddai 'r gymdeithas, o gael ei chydnabod yn ffurfiol gan yr awdurdod, yn rhoi i yrwyr tacsis Caerdydd lais a chyfrwng i wneud sylwadau ar y materion sy'n effeithio ar

Gaerdydd a gyrwyr Caerdydd.

- Gofynnodd Aelodau sut y byddai'r awdurdod yn ymgynghori â gyrwyr nad ydyn nhw'n aelodau o'r gymdeithas. Cynghorodd Swyddogion y byddai cyfarfodydd Fforwm Tacsi chwarterol yn parhau. Mae gan yr awdurdod trwyddedu hefyd restr e-bostio o yrwyr trwyddedig a byddai hefyd yn parhau i ymgynghori â gweithredwyr hurio preifat. Sylwodd y Cadeirydd fod presenoldeb yn y Fforwm Tacsi, ers sefydlu'r gymdeithas, wedi cynyddu'n sylweddol.

- Cyfeiriodd Aelodau at baragraff 9.C o gyfansoddiad y gymdeithas – Hysbysiad Cyfarfodydd Cyffredinol. Awgrymwyd bod y gymdeithas yn cael cyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau nad yw geiriad yr adran honno o'r cyfansoddiad yn cael ei herio.

- Awgrymwyd bod cyfeiriad at undeb GMB yn cael ei dynnu o baragraff 4 o'r Cyfansoddiad – Tanysgrifiadau.

- Gofynnodd Aelodau beth y mae TCV yn bwriadu ei wneud i ddenu rhagor o aelodau.
  Cynghorodd PH fod ystyriaeth yn cael ei roi i TDC yn cyflwyno trefniadau bargeinio ar ran aelodau TDC. Er enghraifft, bu trafodaethau gyda brocer yswiriant ar gyflwyno rhyw fath o gynllun arian yn ôl ar gyfer aelodau TDC sy'n prynu yswiriant cerbyd gan y brocer.

Trafododd Aelodau'r Pwyllgor y cais. Penderfynodd y Pwyllgor fod yr Aelodau'n cefnogi'r cais ond roedd nifer o broblemau y byddai angen i TDC fynd i'r afael â nhw cyn y gellid cydnabod y gymdeithas yn ffurfiol fel corff masnach cynrychioladol yng Nghaerdydd. Gofynnodd y Pwyllgor fod swyddogion yn gwneud y materion hynny'n eitemau ac y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu'n ffurfiol at TDC ar ran y Pwyllgor i ofyn am ateb a mynd i'r afael â'r materion a oedd yn peri pryder. Gofynnodd y Pwyllgor ar ben hynny fod y TDC yn cynnal ei Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn gynt neu'n cynnal Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol

PENDERFYNWYD:

(1) I'r Cadeirydd ysgrifennu'n ffurfiol at Yrwyr Tacsi Caerdydd er mwyn amlinellu pryderon y Pwyllgor a gofyn am ymateb i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon;

(2) I Yrwyr Tacsi Caerdydd gynnal etholiadau newydd i'r Grŵp Llywio;

(3) Yn dilyn yr etholiadau a argymhellir uchod (2), y llunnir adroddiad arall i bennu'r mater hwn i gyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol.